Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru, 17 Rhagfyr 2021

**Yn bresennol:**
Andrew Goodall
Meena Upadhyaya
Gareth Lynn
Ellen Donovan Amy Jones
Andrew Slade
Tracey Burke
Des Clifford
Judith Paget
David Richards
Andrew Jeffreys
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
Helen Lentle
Bekah Cioffi

**Hefyd yn bresennol:**
Catrin Sully
Rachel Garside-Jones
Claire Bennett

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Reg Kilpatrick

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a llongyfarchodd Bekah Cioffi, a oedd wedi llwyddo i gael ei phenodi’n gyd-gadeirydd ar y Bwrdd Cysgodol ar y cyd â Zakhyia Begum. Esboniodd mai hwn fydd cyfarfod cyntaf Bwrdd Llywodraeth Cymru lle bydd cyd-gadeirydd y Bwrdd Cysgodol newydd yn rhoi adborth am y papurau. Cyflwynodd Bekah ei hun a soniodd wrth y Bwrdd am ei chefndir. Croesawyd Bekah gan aelodau’r Bwrdd hefyd.

1.2 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i aelodau'r bwrdd a oeddent yn fodlon ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Dylid anfon unrhyw sylwadau a/neu ddiweddariadau at yr ysgrifenyddiaeth cyn i’r cofnodion gael eu cyhoeddi yr wythnos wedyn.

**Diweddariad ar Gynllunio'r Gyllideb**

1.3 Esboniodd Andrew Jeffreys fod y Cabinet wedi cyfarfod ddydd Llun 13 Rhagfyr i drafod y dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, ynghyd â dyraniadau tan 2025 yn rhan o adolygiad gwariant aml-flwyddyn. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau pecyn y Gyllideb Ddrafft cyn iddi gael ei chyhoeddi ddydd Llun 20 Rhagfyr. Dywedodd Andrew fod y gyllideb yn adlewyrchu egwyddorion ariannol a chymorth ariannol yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus. Byddai Senedd Cymru yn craffu ar y gyllideb ddrafft ym mis Ionawr.

1.4 Dywedodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol fod y Llywodraethu mewn perthynas â'r gwaith hwnnw yn bwysig er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi cydweithwyr a fyddai'n gorfod paratoi dros gyfnod yr ŵyl ar gyfer sesiynau craffu ym mis Ionawr.

**CAM GWEITHREDU 1:** Papur diweddaru cryno ar y gyllideb i'w ddosbarthu i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

## 2. Cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

2.1 Cyflwynodd Catrin Sully bapur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a oedd wedi'i wneud ar y Rhaglen Lywodraethu. Esboniodd Catrin fod cynnydd da wedi'i wneud ar ymrwymiadau gwreiddiol y Rhaglen Lywodraethu, gan sicrhau newid ymarferol a fydd yn creu Cymru fwy cyfartal, fwy llewyrchus a gwyrddach.

2.2 Dywedodd Catrin hefyd fod y Prif Weinidog wedi sefydlu Is-bwyllgor Cabinet ar y Rhaglen Lywodraethu a fydd yn arfer goruchwyliaeth strategol ar y gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

2.3 Rhoddodd Rachel Garside-Jones yr wybodaeth ddiweddaraf am y cytundeb Cydweithio ac esboniodd fod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i chyhoeddi ar 7 Rhagfyr fel mai un set o flaenoriaethau fyddai gan y llywodraeth.

2.4 Dywedodd Rachel fod 284 o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu estynedig, a bod 70 ohonynt yn cwmpasu'r meysydd yn y Cytundeb Cydweithio y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda Phlaid Cymru i'w gwireddu.

2.5 Nododd y Bwrdd y bydd y Rhaglen Lywodraethu estynedig yn cael ei monitro gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Offeryn Adrodd am Wybodaeth

Busnes (BIRT) sy'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd i adlewyrchu'r Rhaglen Lywodraethu ar ei newydd wedd. Bydd mynediad ar gyfer Aelodau Dynodedig Plaid Cymru at bob maes yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n dod o dan y Cytundeb yn cael ei hwyluso gan Uned newydd y Cytundeb Cydweithio yn Llywodraeth Cymru. Nododd y Bwrdd fod dogfen y Cytundeb Cydweithio: mecanweithiau, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cydweithio.

2.6 Nododd y Bwrdd adborth y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn cyfeirio at y posibilrwydd o newidiadau i gwmpas y Rhaglen Lywodraethu, y ffordd y bydd Uned y Cytundeb Cydweithio yn cynnal ei busnes mewnol yn Gymraeg, a phwysigrwydd cysondeb wrth gofnodi gwybodaeth yn BIRT.

2.7 Diolchodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i Catrin a Rachel, gan groesawu'r diweddariad cadarnhaol hwn am gynnydd a oedd yn rhoi'r teimlad bod y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd parhaol yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar y cyd.

**CAM GWEITHREDU 2:** Cyfarfodydd i'w cynnal gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Bwrdd Cysgodol i drafod mwy ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

**CAM GWEITHREDU 3:** Cynnwys eitem agenda yn y Rhagolwg am Strategaeth Llywodraeth Cymru ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg.

2.8 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth o'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Cysgodol a oedd wedi canolbwyntio ar:

- ofynion Iaith Gymraeg Uned y Cytundeb Cydweithio.
- cynigion i gyflwyno Asesiadau Effaith Integredig.
- y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Plaid Cymru.
- lefel y manylion a gesglir yn BIRT.

## 3. Materion Cyfredol

3.1 Amlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol y materion a'r data cyfredol a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 a'r amrywiolyn Omicron newydd. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai'r amddiffyniad gorau yn erbyn yr amrywiolyn newydd hwnnw oedd brechu − bod cyflwyno'r ymgyrch atgyfnerthu yn rhan bwysig o atal yr amrywiolyn rhag lledaenu.

3.2 Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod nifer yr achosion a gadarnhawyd o haint Omicron yn codi'n ddyddiol yng Nghymru, ac er ein bod yn dal i ddysgu am y math newydd hwn o'r coronafeirws, fod yr holl wybodaeth sydd gennym yn dweud wrthym ein bod yn wynebu sefyllfa ddifrifol iawn.

3.3 Nododd y Bwrdd y bydd cyfraddau heintio uchel yng Nghymru yn rhoi pwysau ar ein GIG a bod cryn bryder am brinder staff oherwydd y cyfraddau heintio ymhlith staff ein gwasanaethau brys.

3.4 Rhoddodd Judith Paget yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf o ran Covid-19, gan ganolbwyntio ar y niferoedd â Covid-19 yng Nghymru, y sefyllfa mewn ysbytai, unedau gofal dwys a'r rhaglenni brechu a brechiadau atgyfnerthu.

3.5 Nododd y Bwrdd fod y Cabinet yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa o ran iechyd cyhoeddus, sy'n newid yn gyflym, a'i fod wedi newid y cylch adolygu i un wythnosol. Roedd cynlluniau ar gyfer rheolau Covid ar ôl y Nadolig wrthi'n cael eu hystyried.

3.6 Gofynnodd Bekah Cioffi am y niferoedd yn y gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a oedd yn manteisio ar y brechiad atgyfnerthu. Dywedodd Judith fod y lefelau Cenedlaethol a lefelau'r Byrddau Iechyd yn cael eu hystyried, y byddai data'n parhau i gael eu dadansoddi ac y byddai camau'n cael eu cymryd i ymateb i unrhyw annhegwch o ran brechu.

3.7 Cafwyd trafodaeth am adnoddau yn Llywodraeth Cymru a dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cynlluniau ar waith i symud adnoddau er mwyn cefnogi timau a oedd yn gwneud gwaith hanfodol ar y pandemig.

3.8 Nododd y Bwrdd fod y Farwnes Hallett wedi'i phenodi i arwain yr ymchwiliad cyhoeddus i Covid-19 ledled y DU, a bod panel wedi'i sefydlu hefyd i'w chefnogi.

# 4. Y Diweddaraf am y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

4.1 Rhoddodd Claire Bennett yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu camau gweithredu diwygiedig yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan ganolbwyntio ar y camau i'w cymryd gan arweinwyr.

4.2 Rhoddodd Claire wybod i'r Bwrdd am y camau nesaf a chydnabu'r Bwrdd y byddai nodau a chamau gweithredu diwygiedig yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Rhagfyr. Wedyn, byddai cyfnod o adolygu a rhagor o waith datblygu er mwyn sicrhau y byddai'r nodau a'r camau gweithredu diwygiedig yn ymateb i'r adborth a oedd wedi dod i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai'r Cynllun diwygiedig yn cael ei ystyried gan Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Ionawr a dechrau mis Chwefror.

4.3 Nododd y Bwrdd fod angen, ar draws y Cynllun yn ei gyfanrwydd, ddod â'r systemau a'r prosesau sy'n cael effaith negyddol ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i'r wyneb, er mwyn mynd i'r afael a herio'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar hyn o bryd, a gwneud rhywbeth gweithredol, beiddgar a gwahanol i fynd i'r afael â'r mater.

4.4 Roedd y Bwrdd yn cydnabod y dylai'r Cynllun ysgogi proses weithredol ar gyfer arweinwyr a'u hannog i fynd ar drywydd yr hyn a oedd i gyfrif am yr heriau. Dim ond drwy newid y systemau a'r strwythurau sy'n caniatáu iddi barhau y gellir mynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig. Byddai cefnogaeth i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn parhau'n bwysig ond dylid hoelio sylw ar drwsio'r system yn hytrach nag ar ddiffygion ymddangosiadol.

4.5 Roedd y Bwrdd yn croesawu adolygiad / archwiliad allanol o brosesau a systemau, mewn partneriaeth â staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, i nodi'r hyn y mae angen ei newid er mwyn i arferion gwrth-hiliol ymwreiddio.

4.6 Roedd y Bwrdd yn cytuno bod cael digon o adnodd a oedd wedi 'byw'r profiad' yn allweddol er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a sicrhau newid ystyrlon.

4.7 Nododd y Bwrdd adborth y Cyfarwyddwyr Anweithredol, a oedd yn cynnwys:

- Llongyfarch Claire a'r tîm ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar yr hyn a oedd yn ddarn cymhleth iawn o waith.
- Cynnig y dylid gofyn cwestiynau mewn amgylchedd diogel fel y bo modd deall unrhyw rwystrau.
- Pwysigrwydd deall yr hyn sydd angen ei wneud yn ymarferol i ganiatáu newid ystyrlon.

4.8 Er bod polisïau Adnoddau Dynol, addasiadau strwythurol ac arweinyddiaeth yn gwbl allweddol er mwyn creu sefydliad gwrth-hiliol, roedd y Bwrdd yn cytuno bod angen inni hefyd fynd ati mewn ffordd llawer mwy gweithredol i ddweud wrth ein cydweithwyr, gan gynnwys yr arweinwyr, pa fath o sefydliad yr ydym am fod.

4.9 Tynnodd y Bwrdd sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn, ac roedd yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fod yn enghraifft i eraill o ran bod yn sefydliad gwrth-hiliol.

4.10 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth o'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Cysgodol a dywedodd fod y Bwrdd:

- yn croesawu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac yn falch o nodi ei fod yn mynd i'r cyfeiriad cywir o ran cynnydd, ond bod y Bwrdd Cysgodol hefyd yn cydnabod maint y dasg.

- wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai llwyddiant y Cynllun hwn baratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o waith i helpu i sicrhau cydraddoldeb i unigolion anabl a niwroamrywiol.
- wedi pwysleisio croestoriadedd yn y sefydliad ac mewn gymdeithas, lle mae gan unigolion neu, lle mae unigolion yn uniaethu â, nifer o nodweddion gwarchodedig sy'n cael effaith gronnol arnynt o ran cael eu trin yn gyfartal.
- yn croesawu'r archwiliad allanol o systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru.

## 5. Y Diweddaraf am gyllid

5.1 Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y sefyllfa bresennol o ran Cyllid.

5.2 Cyflwynodd Gawain adroddiad am ragolygon alldro a sefyllfa cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 fel yr oeddent ar 31 Hydref 2021 (mis 7), a oedd yn canolbwyntio ar:

- Ragolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn

5.3 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth am farn y Bwrdd Cysgodol, a oedd wedi canolbwyntio ar y cyllid ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Materion Gwledig a Chyfiawnder Cymdeithasol ac ar broses cynllunio'r gyllideb.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r aelodau ac yn arbennig i Bekah Cioffi am ei hadborth o gyfarfod y Bwrdd Cysgodol.

**CAM GWEITHREDU 4:** Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i’r swyddogion drefnu cyfarfod gyda chyd-gadeiryddion y Bwrdd Cysgodol er mwyn ystyried yr adborth cyntaf yr oedd y Bwrdd Cysgodol wedi’i roi i Fwrdd Llywodraeth Cymru.